Effaith ac etifeddiaeth ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth

04/03/2024

See all updates

Mae'r gwerthusiad diwedd rhaglen yn datgelu bod miloedd o bobl a sefydliadau wedi cymryd rhan yn ein buddsoddiad ac wedi elwa ohono, ac mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Evaluation of the Digital Skills for Heritage initiative (.pdf) as PDF(1.94 MB)	1.94 MB
PDF Gweld Gwerthusiad o'r fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth (.pdf) as PDF(1.93 MB)	1.93 MB

Fe wnaethom lansio ein menter £4.2miliwn i godi sgiliau a hyder digidol y sector treftadaeth ym mis Chwefror 2020. Bu'r rhaglen uchelgeisiol yn ymateb i waith polisi Culture is Digital yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), a nododd gyfleoedd sylweddol i ddatblygu'r sector treftadaeth drwy ddefnyddio technolegau. Yn ddiweddarach cyfrannodd DCMS £1m ychwanegol i ehangu ein gwaith llwyddiannus.

Bedair blynedd ymlaen, rydym wedi ariannu 55 o brosiectau sydd wedi cefnogi dros 53,000 o unigolion yn gweithio ac yn gwirfoddoli mewn dros 6,400 o sefydliadau.

Ein nod oedd adeiladu hyder digidol ymhlith sefydliadau bach a sefydliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr; darparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu digidol i gynyddu cyrhaeddiad a'r effaith ar sefydliadau bach a chanolig; a chefnogi arweinyddiaeth ddigidol ar draws y sector.

Yr hyn y mae ein buddsoddiad wedi'i alluogi

Mae'r prosiectau y gwnaethom eu cefnogi wedi darparu o leiaf 242,000 o oriau o hyfforddi a datblygu a chreu dros 880 o adnoddau dysgu trwydded agored. O ganlyniad i hyn mae:

- 85% o brosiectau wedi cynyddu eu sgiliau digidol a hyder
- 100% o gyfranogwyr Arwain y Sector wedi cynyddu eu hyder digidol
- ecosystem yn y DU o 64 o sefydliadau cymorth digidol ac arbenigwyr wedi'i datblygu
- cynnydd wedi digwydd mewn mynediad at dreftadaeth ac wrth gyrraedd cynulleidfaoedd treftadaeth newydd

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Mae effaith ac etifeddiaeth ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi bod yn drawiadol. Gwnaethom lwyddo i ehangu’r fenter mewn ymateb i alw o’r sector gyda chymorth gan DCMS ac mae miloedd o unigolion a sefydliadau wedi gwella eu sgiliau a’u hyder i ddefnyddio digidol er mwyn gwneud treftadaeth yn haws ei darganfod, yn hygyrch ac yn agored. Erbyn hyn mae cyfoeth o adnoddau dysgu trwydded agored ar gael yn Gymraeg a Saesneg i helpu’r sector i fanteisio i'r eithaf ar y byd digidol.

“Trwy gyrraedd mwy o bobl ac ennyn eu diddordeb mewn treftadaeth gallwn sicrhau y caiff ei gwerthfawrogi a'i chynnal ac y gofalir amdani ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.”

Ein hymrwymiad i drawsnewid digidol

Nododd y gwerthuswyr, InFocus, alw ac angen clir am sgiliau a hyfforddiant digidol. Dywedodd sefydliadau eu bod yn dal i gael trafferth gydag amser, capasiti, adnoddau a mynediad at arbenigedd.

Bydd cefnogi hyder arweinwyr a byrddau i flaenoriaethu trawsnewid digidol, a gwella rhannu gwybodaeth am ddefnydd cost isel o dechnoleg, yn hanfodol i gyflawni aeddfedrwydd digidol yn y sector treftadaeth.

Mae digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o dan ein strategaeth 10 mlynedd Treftadaeth 2033 ac mae'n rhan annatod o'r egwyddorion buddsoddi a fydd yn llywio ein penderfyniadau ynghylch grantiau dros y deng mlynedd nesaf.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn digidol ar gyfer treftadaeth drwy ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Os gall mwy o sgiliau digidol wella cynaladwyedd eich sefydliad, neu os gall defnydd creadigol o ddigidol wneud treftadaeth yn fwy hygyrch ac ysbrydoli mwy o bobl i ddiogelu treftadaeth, rydym am glywed gennych.

Cael gwybod mwy

Darllenwch y gwerthusiad Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth llawn yn y PDF sydd ynghlwm wrth y dudalen hon i gael gwybod mwy am y gwahaniaeth y mae ein hariannu wedi'i wneud.

Ein gwaith ymchwil a gwerthuso

Rydym yn cynnal ymchwil yn rheolaidd i ddarganfod beth sy'n digwydd yn y sector treftadaeth, ac yn gwerthuso ein gwaith i ddeall yn well y newid yr ydym yn ei wneud. Darllen mwy o'n mewnwelediad.



efyd mewn ...

Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.

Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth





New online resource to answer the sector’s digital questions